# GOFYN CWESTIYNAU

PARTNERIAETH

Ar y tudalennau canlynol byddwch yn dysgu sut i ofyn cwestiwn yn yr amserau gwahanol rydyn ni wedi'u hastudio. Cofiwch fod sut rydyn ni'n ateb yn gadarnhaol ac yn negyddol yn dibynnu ar y cwestiwn sy'n cael ei ofyn.

Oes...? → Oes / Nac oes

Oes llawer o waith gyda ti? → Oes, mae llawer o waith gyda fi. / Nac oes, does dim llawer o waith gyda fi.

## Y PRESENNOL

Wyt ti...? → Ydw / Nac ydw

Wyt ti'n mynd i siopa 'fory? → Ydw, dw i'n mynd i siopa 'fory gyda Mam a fy mrawd. / Nac ydw, dw i ddim yn mynd i siopa 'fory.

Mae gofyn cwestiynau yn y presennol yn hawdd. Defnyddiwch y patrwm ar y dde a newidiwch y ferf i greu rhagor o gwestiynau.

| |
|---|
| Wyt ti'n mynd i...? |
| Wyt ti'n bwyta...? |
| Wyt ti'n aros...? |
| Wyt ti'n yfed...? |
| Wyt ti'n cerdded...? |
| Wyt ti'n dod...? |

PARTNERIAETH

# GOFYN CWESTIYNAU

## Y PRESENNOL

Gallwch chi newid dechrau'r cwestiynau i ofyn am bobl eraill hefyd.

Ydy e...? → Ydy / Nac ydy

Ydy hi...? → Ydy / Nac ydy

Ydyn ni...? → Ydyn / Nac ydyn

## Y DYFODOL

Fyddi di...? → Bydda / Na fydda

Fyddi di'n mynd i siopa 'fory? → Bydda, bydda i'n mynd i siopa 'fory gyda Mam a fy mrawd. / Na fydda, fydda i ddim yn mynd i siopa 'fory.

Mae gofyn cwestiynau yn y dyfodol yn debyg iawn. Defnyddiwch y patrwm ar y dde a newidiwch y berfau i greu rhagor o gwestiynau.

| |
|---|
| Fyddi di'n mynd i...? |
| Fyddi di'n bwyta...? |
| Fyddi di'n aros...? |
| Fyddi di'n yfed...? |
| Fyddi di'n cerdded...? |
| Fyddi di'n dod...? |

Gallwch newid dechrau'r cwestiynau i ofyn cwestiynau am bobl eraill hefyd.

Fydd e...? → Bydd / Na fydd

Fydd hi...? → Bydd / Na fydd

Fyddwn ni...? → Byddwn / Na fyddwn

PARTNERIAETH

# GOFYN CWESTIYNAU

## Y GORFFENNOL

Fwytaist ti...? → Do / Naddo

Fwytaist ti frecwast bore 'ma? → Do, bwytais i dost i frecwast bore 'ma. / Naddo, fwytais i ddim brecwast bore 'ma.

Ydych chi'n cofio'r berfau rydych chi wedi defnyddio yn y gorffennol e.e Bwytais i, Gwelais i, Darllenais i? Dyma sut gallwch chi eu newid nhw'n gwestiynau. Sylwch ar y treiglad meddal ar ddechrau'r frawddeg.

| |
|---|
| Fwytaist ti...? |
| Ddarllenaist ti...? |
| Welais ti...? |
| Arhosaist ti...? |
| Enillaist ti...? |

Y tro hwn, mae'n rhaid i chi newid y terfyniadau i ofyn i bobl eraill.

Fwytodd e...? → Do / Naddo

Fwytodd hi...? → Do / Naddo

Fwyton ni...? → Do / Naddo

Peidiwch ag anghofio y bydd y berfau afreolaidd yn wahanol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| mynd | Est ti...? | Aeth e/hi? | Aethon ni...? |
| dod | Ddest ti...? | Ddaeth e/hi...? | Ddaethon ni...? |
| Cael | Gest ti...? | Gafodd e/hi...? | Gawson ni...? |
| gwneud | Wnest ti...? | Wnaeth e/hi...? | Wnaethon ni....? |

## YR AMODOL

Dyma'r cwestiynau bydd eu hangen arnoch chi ar gyfer y amser amodol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hoffet ti...? | Hoffai e....? | Hoffai hi...? | Hoffen ni...? |
| Ddylet ti...? | Ddylai e...? | Ddylai hi...? | Ddylen ni...? |
| Faset ti...? | Fasai e...? | Fasai hi...? | Fasen ni...? |
| Pe baet ti...? | Pe bai e...? | Pe bai hi...? | Pe baen ni...? |